

Rhif: WG43536



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Y Cwricwlwm i Gymru:
Cod drafft Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Y Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Cynulleidfa Ymarferwyr addysg; ysgolion a gynhelir; lleoliadau meithrin a ariennir ond nas cynhelir; unedau cyfeirio disgyblion; lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol; awdurdodau lleol; consortia addysg rhanbarthol; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion awdurdodau esgobaethol; undebau llafur ac Estyn.

Trosolwg Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod drafft Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

Camau i'w cymryd Er gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma: [Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig | LLYW.CYMRU](#)

Dogfennau cysylltiedig

Gellir gweld y ddogfen ymgynghori yma: [Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig | LLYW.CYMRU](#)

Gellir dod o hyd i'r canllawiau ar gyfer Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yma: [Cwricwlwm i Gymru - Hwb \(gov.wales\)](#)

Cynnwys

Y Cwricwlwm i Gymru	2
Y cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig	3
Y broses ymgynghori	5
Crynodeb o ganfyddiadau'r ymatebion	5
Cwestiwn 1 – y blaenoriaethau dysgu	14
Cwestiwn 2 – eglurder a hygyrchedd	Error! Bookmark not defined.
Cwestiwn 3 – newidiadau a awgrymir	Error! Bookmark not defined.
Cwestiwn 4 – yr effeithiau ar y Gymraeg	Error! Bookmark not defined.
Cwestiwn 5 – gwella'r Gymraeg	Error! Bookmark not defined.
Cwestiwn 6 – gwybodaeth ychwanegol	Error! Bookmark not defined.

Y Cwricwlwm i Gymru

1. Caiff [Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru](#) (y Fframwaith) ei bennu yn genedlaethol ac mae'n cynnwys gofynion y cwricwlwm, fel y nodir mewn deddfwriaeth, ac ystod o ganllawiau ategol. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020 ac mae'n cynnwys 27 o ddatganiadau drafft o'r hyn sy'n bwysig wrth ddysgu.
2. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, a'r canllawiau eraill a gyhoeddir ochr yn ochr ag ef, wedi'u llunio ar y cyd. Maent wedi'u datblygu yng Nghymru, gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr, gan ddwyn ynghyd arbenigedd addysgol ac ymchwil a thystiolaeth ehangach. Maent wedi'u cyhoeddi'n bennaf i helpu ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain ac i fodloni gofynion a nodir mewn deddfwriaeth.
3. Dyluniwyd y Fframwaith i helpu ymarferwyr i ddatblygu dull mwy integredig o ddysgu. Mae'r chwe maes dysgu a phrofiad (y Meysydd) yn dwyn ynghyd ddisgyblaethau cyfarwydd, ac yn annog cysylltiadau ystyrlon a chadarn ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Bydd gan y disgyblaethau unigol hynny ran bwysig i'w chwarae o hyd, yn arbennig wrth i ddysgwyr ddangos cynnydd a dechrau arbenigo.
4. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn annog cydweithio a chynllunio, dysgu ac addysgu trawsddisgyblaethol, o fewn ac ar draws y Meysydd. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin cysylltiadau ar draws eu dysgu ac i gyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau.
5. Mae'r Fframwaith hwn yn cynnwys 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r rhain yn sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, gan fod rhaid i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r holl ddatganiadau. Bydd y broses o archwilio'r datganiadau hyn ac ailymweld â hwy yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach eto ar hyd y continwmm dysgu ac i wneud cynnydd tuag at ddealltwriaeth fwy soffistigedig o'r wybodaeth, y syniadau a'r egwyddorion allweddol ym mhob Maes.

6. Bydd y ddealltwriaeth fwy soffistigedig hon yn galluogi dysgwyr i werthfawrogi sut mae eu dysgu'n cyfrannu at y syniadau hyn a pham mae hyn yn bwysig, yn hytrach na gallu dim ond cofio ffeithiau unigol heb ddeall y cyd-destun. Mae'r cynnydd hwn, ar y cyd ag amrywiaeth o ddulliau asesu, yn galluogi'r dysgwyr a'r ymarferwyr i ddeall ble mae'r dysgwyr arni, a beth sydd angen iddynt ei wneud nesaf.

Y cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

7. Mae'r Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn is-ddeddfwriaeth a ddatblygwyd o dan adran 6 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf). Mae'n nodi'r 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws y Meysydd y mae angen i gwricwlwm bob ysgol a gynhelir a phob lleoliad a ariennir ond nas cynhelir fod yn seiliedig arnynt. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.
8. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio'r Cod, ymgynghori ar ei gynnwys a'i adolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r gofyniad ar ysgolion a lleoliadau i ddefnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a nodir yn y Cod yn cyd-fynd â gofynion eraill o ran dylunio a datblygu eu cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

Y broses ymgynghori

9. Roedd fersiynau cynharach o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn destun ymgynghoriad 12 wythnos fel rhan o'r ymgynghoriad a oedd yn cwmpasu holl ganllawiau drafft Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn 2019. Yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw, gofynnwyd yn benodol am safbwyntiau ar y 27 o ddatganiadau drafft o'r hyn sy'n bwysig. Roedd hyn yn cynrychioli ymgynghoriad sylweddol gyda dros 2,000 o ymatebion amrywiol gan ymarferwyr, arweinwyr ysgolion, rhieni, grwpiau â diddordeb arbennig, y sector cyhoeddus a phlant a phobl ifanc. Ochr yn ochr â mewnbwn gan grwpiau ffocws, cawsom 1,680 o gyflwyniadau digidol, ynghyd ag adborth gan 423 o ddysgwyr. Mae cyfres o [adroddiadau sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad hwnnw](#) ac ymatebion iddo wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

10. Yn fwy diweddar, cynhaliwyd yr ymgynghoriad penodol ar y Cod drafft Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, rhwng 21 Mai ac 16 Gorffennaf 2021. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo i gynulleidfa eang o randdeiliaid gan gynnwys ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau plant, Estyn, ac undebau llafur.
11. Arweiniodd yr ymgynghoriad penodol hwn ar y Cod drafft at gyfanswm o 44 o ymatebion, a chyflwynwyd y mwyafrif helaeth ohonynt yn Saesneg. Roedd ymatebion gan ymarferwyr yn cyfrif am tua thraean o'r holl ymatebion, er bod y rhain wedi'u hategu gan nifer o ymatebion gan gyrrff sy'n cynrychioli ymarferwyr, megis undebau llafur addysgol. Daeth tua chwarter yr ymatebion gan randdeiliaid ym maes addysg, sefydliadau haen ganol yn bennaf (fel Estyn, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol).
12. Cafwyd llawer o ymatebion gan amrywiaeth ehangach o randdeiliaid â diddordeb ym maes addysg hefyd, gan ddarparu tua chwarter yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o gyrrff yn y sector cyhoeddus, swyddfeydd gwahanol gomisiynwyr a sefydliadau trydydd sector. Daeth gweddill yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod hwn gan rieni, unigolion (yn ddienw) a phlant a phobl ifanc – gan gynnwys grwpiau cynrychioli plant a phobl ifanc.
13. Roedd yr ymgynghoriad ar y Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cynnwys 6 cwestiwn allweddol. Roedd y 2 gwestiwn cyntaf yn canolbwyntio ar safbwyntiau ynghylch ehangder ac eglurder y 27 o ddatganiadau; roedd y rhain yn dilyn cwestiynau tebyg i'r rhai a gafodd eu cynnwys yn ymgynghoriad y Cwricwlwm i Gymru 2019.
14. Ceisiodd cwestiwn 3 a'r tri is-gwestiwn cysylltiedig adborth ar y newidiadau a awgrymwyd i'r datganiadau a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020; cynigiwyd y rhain yn dilyn ymrwymadau gan Lywodraeth Cymru a wnaed yn ystod hynt y Ddeddf yn 2020 a 2021.
15. Roedd cwestiynau 4 a 5 yn gwestiynau ymgynghori safonol gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am farn ar oblygiadau'r cynigion o ran y Gymraeg. Roedd

cwestiwn 6 yn rhoi lle i ymatebwyr gyflwyno safbwyntiau ehangach nad oedd yr arolwg ymgynghori wedi ymdrin â hwy.

16. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau hyn isod.

Crynodeb o ganfyddiadau'r ymatebion

17. Dyma rai o'r pwyntiau allweddol a godwyd gan y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad 2021:

- cefnogaeth sylweddol ar gyfer y datganiadau
- yr angen i gyfeirio'n benodol at y Gymraeg a'r Saesneg yn y datganiadau leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- croesawu cyfeiriad penodol at hanes Cymru
- angen bod yn fwy penodol mewn cyfeiriadau at amrywiaeth a gwrth-hiliaeth
- croesawu cyfeiriadau penodol at yr argyfwng hinsawdd a natur
- angen cyfeirio'n fwy penodol at hawliau fel y nodir o dan Gofensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau.

18. Daeth adborth ehangach hefyd i law o'r ddau ymgynghoriad; mae'r adborth hwn yn awr yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi, rhaglenni a chanllawiau. Y prif bwyntiau ehangach oedd:

- yr angen am gymorth penodol, uniongyrchol a pharhaus i ysgolion gyda gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru, a chafwyd amrywiaeth o safbwyntiau yn ymwneud â'r ffocws ar hynny
- yr angen am ragor o ganllawiau a chymorth mewn perthynas â'r dulliau asesu
- yr angen am gysylltiadau clir rhwng cynnydd ac asesu, yn cynnwys datblygu cymwysterau newydd yn seiliedig ar ofynion Cwricwlwm i Gymru.

Cwestiwn 1 – y blaenoriaethau dysgu

19. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Mewn ymateb i adborth ar ganllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru yn 2019 mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn orfodol drwy ddatblygiad y Cod hwn.

A yw'r 27 datganiad fel y'u mireiniwyd drwy'r Cod drafft hwn yn crynhoi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc gydol y continwmm ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed?

20. O'r ymatebion, roedd y mwyafrif llethol o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno bod y 27 o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cynrychioli'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed ar draws y continwmm. Er eu bod yn gefnogol, awgrymodd tua chwarter yr ymatebwyr ffyrdd o gryfhau'r datganiadau, yn eu barn hwy. Dim ond pum ymateb oedd yn anghytuno'n benodol, a doedd y fwyaf o'r rheini ddim wedi egluro eu rhesymau rhyw lawer.

“The Statements of What Matters reflect current priorities. Practitioners should be encouraged to recognise the rationale beneath to provide further information to the Statements and within the context of the 4 Purposes.”

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i Gwestiwn 1

21. Yn gyffredinol, cyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer diwygiadau pellach gan sefydliadau rhanddeiliaid yn hytrach na gan ymarferwyr. Darparwyd adborth mewn perthynas â'r derminoleg a oedd yn cael ei defnyddio, yn ogystal â'r pwyslais a oedd yn cael ei roi ar agweddau penodol ar wahanol ddatganiadau. Er eu bod yn cydnabod y ddarpariaeth bresennol ac yn cynnig newidiadau pellach i gryfhau gwahanol gyfeiriadau yn y Cod, roedd galw am gyfeiriadau penodol pellach at ystod eang o faterion. Er enghraifft, yr argyfwng hinsawdd a natur, addysg hawliau dynol, hanes Prydain, addysg lles mislif, chwaraeon a gweithgareddau corfforol, gan nodi addysgeg benodol, a rôl undebau llafur mewn datblygiad cymdeithasol.

22. Roedd cefnogaeth i'r datganiadau ar y cyfan, ond tynnodd rhai ymarferwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn sylw hefyd at yr angen am gymorth parhaus mewn ysgolion a lleoliadau i'w helpu i weithio gyda Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Cwestiwn 2 – eglurder a hygyrchedd

23. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig fydd y prif strwythurau ar gyfer rhoi trefn ar y cwricwlwm ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad.

A yw'r datganiadau diwygiedig yn glir ac yn hawdd eu deall, gan ddarparu dealltwriaeth o ehangder datblygu'r cwricwlwm?

24. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, unwaith eto, cytunodd y mwyafrif fod y 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn glir ac yn hygyrch ar gyfer ymarferwyr. Dim ond tri ymateb oedd yn anghytuno'n benodol, ac ni chafwyd llawer o eglurhad o'r rhesymau.

"I am aware of the years of work that have been undertaken in developing these statements with teaching professionals from a range of education settings, who have also developed and tested approaches using these statements in their education settings. I therefore do feel that Government has taken steps to ensure accessibility."

Dyfyniad o ymateb i Gwestiwn 2 gan randdeiliad nad yw'n ymarferydd addysgol

25. Fe wnaeth ymatebwyr i'r cwestiwn hwn hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd ystyried adborth gweithwyr proffesiynol nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses arloesi, yn ogystal â chynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r datganiadau, neu'r cwricwlwm yn fwy cyffredinol.

26. Er bod y datganiadau'n gweithio i weithwyr proffesiynol ym maes addysg (y brif gynulleidfa ar gyfer canllawiau'r cwricwlwm) dangosodd rhai ymatebion y byddent yn llai defnyddiol i rieni a phlant a phobl ifanc. Byddai angen fersiynau amgen ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

27. Fel y nodwyd ym mharagraff 22 uchod, tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am gymorth parhaus i ysgolion a lleoliadau wrth iddynt wireddu eu cwricwlwm.

Cwestiwn 3 – newidiadau a awgrymir

28. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi'u mireinio ar ôl ystyried materion fel rhan o basio deddfwriaeth gysylltiedig drwy'r Senedd yn 2020/21.

- a) A yw'r diwygiadau i'r datganiadau mewn perthynas ag amrywiaeth a hanes Cymru yn ddigon clir?
- b) A yw'r diwygiadau i'r datganiadau mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd yn ddigon clir?
- a) A yw'r diwygiadau i'r datganiadau yn ddigon clir i sicrhau perthnasedd i'r ystod lawn o ieithoedd y gall dysgwyr ddod ar eu traws?

29. Unwaith eto, nododd ymatebwyr gefnogaeth gyffredinol i'r newidiadau arfaethedig i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws y tri maes a amlygwyd yn y cwestiwn. Roedd tua thri chwarter yr ymatebwyr o'r farn bod y cynigion ar gyfer diweddarau'r datganiadau yn eu cryfhau, gyda dim ond tri ymatebydd yn anghytuno â'r gwelliannau a awgrymwyd (heb egluro llawer ar y rhesymau dros hynny). Nid oedd tua thraean o'r holl ymatebion i'r arolwg yn rhoi atebion i'r cwestiynau hyn.

30. Hefyd, nododd rhai ymatebion gan randdeiliaid y cyfle i sicrhau bod datblygiadau pwysig mewn dealltwriaeth fyd-eang a chenedlaethol o hiliaeth a mynegiant ac effeithiau hiliaeth, a sut mae atal hiliaeth, yn cael eu hadlewyrchu yn y Cod. Er enghraifft, roedd pryder nad oedd unrhyw sôn penodol am fynd i'r afael â hiliaeth yn amlwg ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Maes). Roedd hyn wedi'i awgrymu yn y datganiadau gwreiddiol a'r diwygiadau a awgrymwyd iddynt. Er hyn, roedd rhai yn teimlo bod angen cyfeirio'n benodol er mwyn cefnogi'r broses o ymgorffori dulliau dysgu o'r fath ar draws y cwricwlwm newydd, gan gefnogi dysgwyr sy'n ymgorffori'r pedwar diben.

"...priorities also include education on the climate and ecological emergency and social justice including the impact Wales has caused through its colonialist past and the colonialist narratives that continue to be perpetuated today including within the education system."

Dyfyniad o ymateb i Gwestiwn 3 gan ddysgwr

31. Cafwyd cefnogaeth ar y cyfan, ond darparwyd rhai awgrymiadau penodol (yn bennaf gan sefydliadau sy'n rhanddeiliaid) ar sut y gellid diwygio'r datganiadau ymhellach. Mewn perthynas â'r diwygiadau awgrymedig yr ymdrinnir â hwy yng nghwestiwn 3(a) mewn perthynas â hanes ac amrywiaeth, roedd rhai ymatebion yn ystyried y gallai'r cyfeiriadau mwy penodol gael eu gwneud yn y datganiad sy'n ymwneud â llenyddiaeth ynghylch yr angen i ddysgwyr brofi gwaith gan ystod o awduron amrywiol.

“Yes, we believe Welsh histories and diversity is suitably clear within the amended documents. We believe respects of the climate emergency are suitably clear and can be used throughout each of the AoLEs Yes, because the amended documents clearly mention plurilingualism and BSL. These meet the current needs and issues within our school.”

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i'r 3 agwedd ar Gwestiwn 3

32. O ran y gwelliannau a awgrymwyd ynghylch yr argyfwng hinsawdd a drafodir gan gwestiwn 3(b), roedd ymatebion gan randdeiliaid yn tynnu sylw at yr angen i gyfeirio at hyn fel argyfwng hinsawdd a natur. Roedd rhai ymatebion gan ddysgwyr yn galw am gyfeiriadau ehangach ar draws mwy o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar yr agwedd hon ar ddysgu.
33. O ran ymatebion i gwestiwn 3(c) ynghylch y diwygiadau sy'n ymwneud â dysgu iaith, roedd cefnogaeth ar y cyfan i ddefnyddio'r term 'lluosieithog' ochr yn ochr â galw clir (mewn ymatebion gan ymarferwyr a rhanddeiliaid) at gyfeiriadau penodol at ddysgu'r Gymraeg a'r Saesneg. Amlygodd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yr agweddau hyn mewn adborth, gan gydnabod hefyd yr angen i ddatganiadau fod yn berthnasol i ddysgu drwy ieithoedd gweledol, megis iaith Arwyddion Prydain.
34. Cydnabuwyd bod canllawiau ar iaith Arwyddion Prydain yn cael eu hychwanegu at Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn dilyn ymrwymiad gan y Gweinidogion ym mis Ionawr 2020 – a groesawyd eto. Fodd bynnag, wrth ystyried cynnwys ieithoedd gweledol, roedd rhai ymatebion gan ymarferwyr a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid o'r farn bod angen sicrhau bod datganiadau ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu hefyd yn cynnwys cyfeiriadau penodol at siarad ac ysgrifennu mewn perthynas â dysgu Cymraeg a Saesneg.

Cwestiwn 4 – yr effeithiau ar y Gymraeg

35. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?

Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

36. Dim ond hanner yr ymatebwyr i'r arolwg a atebodd y cwestiwn hwn. Roedd pum ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn negyddol. Roedd gweddill yr ymatebion yn gefnogol, gyda thua dwy ran o dair o'r rheini hefyd yn cynnig sylwadau a disgrifiadau ehangach.

“Statement of What Matters present a multilingual approach to languages, providing benefits to the learning of all languages in the curriculum.2

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i Gwestiwn 4

37. Yn unol ag ymatebion i gwestiwn 3 uchod, teimlai rhai ymatebwyr a gynigiodd sylwadau pellach fod defnyddio'r geiriau 'dwyieithog', 'amlieithog' a 'lluosieithog' yn gwneud datganiadau ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn llai clir i ysgolion. Roedd eraill, pwy bynnag, yn cefnogi'r defnydd o'r termau hyn a'r dull lluosieithog cyffredinol o fewn y Maes. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai dychwelyd i'r datganiadau gwreiddiol yn nodi'n benodol y byddai dysgwyr yn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol. Teimlwyd bod y geiriad hwn yn egluro pwysigrwydd datblygu pob iaith. Roedd eraill yn cydnabod yr angen i'r datganiadau hefyd adlewyrchu dysgu ieithoedd gweledol fel Iaith Arwyddion Prydain.

Cwestiwn 5 – gwella’r Gymraeg

38. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y Cod Datganiadau o’r Hyn sy’n Bwysig arfaethedig:

1. fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg
2. fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

39. Atebodd llai na hanner yr ymatebwyr i’r arolwg y cwestiwn hwn. Roedd pedwar ymateb i’r cwestiynau a ofynnwyd yn negyddol. Roedd gweddill yr ymatebion yn gefnogol, gyda dim ond pedwar ateb yn cynnig sylwadau a disgrifiadau ehangach.

“The wordings are fairly clear - it is the staffing that will be hard.”

Dyfyniad o ymateb gan ymarferydd i Gwestiwn 5

40. Pwysleisiodd yr ychydig ymatebwyr hynny a gynigiodd sylwadau pellach yr angen am bwyslais ar y Gymraeg a'r Saesneg, a chydaddoldeb rhyngddynt. Amlygodd yr ymatebion hefyd heriau'n ymwneud mwy â gweithredu mewn perthynas â staffio swyddi cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion, dysgu proffesiynol ar gyfer sgiliau iaith, ac arbenigwyr addysgu Cymraeg i gefnogi darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Cwestiwn 6 – gwybodaeth ychwanegol

41. Y cwestiwn llawn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

42. Mewn nifer o achosion, roedd yr ymatebion i gwestiynau 1 i 5 yn cynnwys adborth ar faterion y tu hwnt i'r hyn a godwyd gan y cwestiynau penodol hynny. Hefyd, roedd y rhan fwyaf o ymatebion i gwestiwn 6 mewn gwirionedd yn bwyntiau wedi'u hailadrodd ac a wnaed yn gynharach mewn ymatebion unigol yn erbyn cwestiynau penodol.
43. Wrth adrodd yn erbyn y cwestiwn terfynol hwn, felly, rydym wedi cynnwys crynodeb o'r materion ehangach a godwyd gan ymatebwyr ni waeth ble y cawsant eu cyflwyno yn y ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym yn cyflwyno'r pwyntiau adborth ehangach hyn yma o dan themâu cyffredin er hwylustod.

Cymorth i ysgolion a lleoliadau

44. Cododd tua thraean o'r ymatebwyr (sefydliadau ac ymarferwyr sy'n rhanddeiliaid ym maes addysg yn bennaf) faterion yn ymwneud â chymorth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Mae hyn naill ai mewn perthynas ag agweddau penodol ar y Cwricwlwm i Gymru fel y nodwyd yn y Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, neu'n fwy cyffredinol mewn perthynas â'r broses o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm. Mae rhai o'r agweddau ar gymorth a nodir mewn adborth yn cynnwys:
- dysgu proffesiynol i ymarferwyr ar reolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol a dysgu yn yr awyr agored ar draws y continwmm dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed
 - dulliau ar gyfer gwireddu dulliau dysgu iaith sy'n canolbwyntio ar luosieithrwydd, gan gynnwys trawsieithu
 - rhagor o gymorth ymarferol i ysgolion a lleoliadau wrth iddynt ddod i ddeall y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac wrth ddylunio a datblygu'r cwricwlwm yn fwy cyffredinol
 - hyfforddiant ar gyfer y Gymraeg a dysgu proffesiynol ar arferion addysgegol perthnasol i ymarferwyr

- yr angen i ddarparu cymorth pwrpasol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir i ddeall y disgwyliadau arnynt
- y gwaith o ddatblygu adnoddau dysgu ac addysgu cenedlaethol ar agweddau, fel hanes Cymru, hanes Prydain, yr argyfwng hinsawdd a natur, ac ati
- adnoddau i ysgolion i'w defnyddio gyda rhieni / gofalwyr ar y newid i'r cwricwlwm – ac ar wahân – deunyddiau ar gyfer plant a phobl ifanc ar y Cwricwlwm i Gymru
- rhagor o ganllawiau i gefnogi'r rhai sy'n gweithio gyda phlant cyn oed ysgol a phlant y blynyddoedd cynnar i sicrhau cysondeb â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer plant 3 oed.

Asesu – gan gynnwys cymwysterau newydd

45. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol o'r blaenoriaethau dysgu a nodir yn y 27 o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Cod drafft, ond roedd llawer o alw yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i sicrhau bod newid i gymwysterau yn digwydd er mwyn cyd-fynd â'r blaenoriaethau dysgu hynny a'u hadlewyrchu'n llwyr. Daeth yr ymatebion ar y thema hon gan ymarferwyr a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid ym maes addysg. O'r ymatebion a gyflwynwyd, cafwyd ymdeimlad cyffredinol y gallai'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm a'r blaenoriaethau a nodir yn y Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig gael eu tansilio pe na byddai'r gwaith o ddiwygio cymwysterau yn dilyn egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.

“We have an opportunity to ensure qualifications truly capture what learners can do, and are not dictating and narrowing the curriculum. It is critical we reflect on the last couple of years and use this opportunity to have a national conversation about the qualifications system.”

Dyfyniad o ymateb gan undeb llafur i'r ymgynghoriad

Dulliau dysgu ac addysgu

46. Mewn rhai achosion penodol, mae ymatebwyr wedi nodi barn ynghylch pam y dylid sicrhau bod rhai dulliau addysgegol mewn meysydd cwricwlwm arwahanol yn orfodol ar draws ysgolion a lleoliadau. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, cyfeiriadau at chwarae ar draws y cwricwlwm a'r gofyniad penodol i addysgu darllen drwy ffoneg systemig, synthetig. Fodd bynnag, amlygodd ymatebion eraill yr angen i gynnal ymreolaeth broffesiynol o fewn y Fframwaith cenedlaethol.

“Whilst we welcome these additions to the WMs it is really important that we retain the spirit of autonomy for education settings to adapt the curriculum for their learners’ needs. This may mean some schools and settings have slightly different priorities than others, and it is critical we get this balance right.”

Dyfyniad o ymateb gan undeb llafur i'r ymgynghoriad

Diwygio'r cwricwlwm

47. Fe wnaeth chwe ymatebydd i'r ymgynghoriad fynegi pryder cyffredinol ynghylch y dull a fabwysiedir i ddiwygio'r cwricwlwm a'r sail y mae'r diwygiadau wedi'u cytuno arni. Cyflwynwyd un o'r ymatebion hyn gan ymarferydd.